**S4C**

# Bwrdd S4C

Cyfarfod 482
10:00, 15 Ionawr 2026
Ystafell 4D, Sgwâr Canolog, Caerdydd

## CRYNODEB O GOFNODION

Aelodau oedd yn bresennol:

- Delyth Evans [DE], Cadeirydd y Bwrdd
- Geraint Evans [GE], Prif Weithredwr
- Dyfrig Davies [DD], Aelod Anweithredol
- Wyn Innes [WI], Aelod Anweithredol
- Llion Iwan [LlI], Prif Swyddog Cynnwys
- Denise Lewis Poulton [DLP], Aelod Anweithredol
- Elin Morris [EM], Prif Swyddog Gweithredu
- Catryn Ramasut [CR], Aelod Anweithredol

Eraill oedd yn bresennol:

- Geraint Pugh [GP], Ysgrifennydd y Bwrdd
- Llinos Priestland [LlP], Swyddog Gweithredol i Ysgrifennydd y Bwrdd
- Mali Williams [MW], Pennaeth Materion Cyhoeddus (ar gyfer eitemau 3 a 4)
- Nadine Beaton [NB], Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant (ar gyfer eitemau 5 a 6)
- Dafydd Franklin [DF], Uwch Gyfrifydd (ar gyfer eitem 5)
- Sara Maredudd [SM], Swyddog Cyfathrebu (ar gyfer eitem 5) – yn rhithiol
- Eleri Griffiths [EG], Swyddog Cyfathrebu (ar gyfer eitem 6) – yn rhithiol
- Natalie Jones [NJ], Rheolwr Addysg, Amrywiaeth a'r Gymraeg (ar gyfer eitem 6)
- Sara Peacock [SP], Pennaeth Pwrpas Cymdeithasol (ar gyfer eitem 6)
- Manon Edwards Ahir [MEA], Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata (ar gyfer eitem 7) – yn rhithiol
- Iestyn Morris [IM], Pennaeth Cyfreithiol a Materion Busnes (ar gyfer eitem 7) – yn rhithiol

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:

- Guto Bebb [GB], Aelod Anweithredol
- Suzy Davies [SuD], Aelod Anweithredol
- Gwenllian Lansdown Davies [GLD], Aelod Anweithredol
- Betsan Powys [BP], Aelod Anweithredol

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Datganiadau diddordebau ac ymddiheuriadau**<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb.<br><br>Tynnwyd sylw pawb at God Diwylliant S4C ar ddechrau'r cyfarfod.<br><br>Nodwyd taw dyma fyddai cyfarfod olaf GB cyn i'w dymor fel aelod anweithredol ddod i ben ar 28 Chwefror 2026. | |
| 2. | **Diweddariad y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, ac Aelodau eraill y Bwrdd** | |

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr adroddiad oedd yn amlinellu'r cyfarfodydd yr oedd wedi cynnal ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd.

Tynnwyd sylw yn benodol at ymddangosiad DE, GE a DD gerbron y Pwyllgor Materion Cymreig yn Llundain y diwrnod blaenorol. Gwahoddwyd DD i rannu ei argraffiadau ei hun o'r sesiwn, ac fe gytunwyd iddi fod yn llwyddiannus.

Adroddodd CR ei bod wedi derbyn gwahoddiad i sgwrs gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, Lisa Nandy AS, ac ei bod yn hapus i godi unrhyw negeseuon ar ran S4C.

**Penderfyniad: Rhannu rhestr o'r tri pheth pwysicaf yn ymwneud ag S4C i CR godi yn ystod ei chyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yr wythnos nesaf.**

Gwahoddwyd y Prif Weithredwr i ddiweddaru'r Bwrdd ar wahanol faterion nad oeddent yn ymddangos ym mhapurau'r cyfarfod:

Cyhoeddiad iPlayer

Nodwyd y cyhoeddiad a wnaed y diwrnod blaenorol ynghylch y cytundeb rhwng S4C a'r BBC i sicrhau nodweddion gwell ac amlygrwydd uwch i gynnwys S4C ar yr iPlayer o Ebrill 2026 ymlaen. Ni chafwyd unrhyw adwaith negyddol ers y cyhoeddiad.

S4C ac AI

Adroddwyd bod ymgynghorydd ar Ddeallusrwydd Artiffisial wedi cyfarfod â'r UDA yr wythnos flaenorol. Codwyd y pwnc hwn hefyd yn ystod y sesiwn gyda'r Pwyllgor Materion Cymreig y diwrnod blaenorol. Pwysleisiwyd nad yw AI yn dechnoleg sydd i gymryd lle pobl, ond yn hytrach i'w galluogi a'u cefnogi yn eu gwaith.

Mae rhywfaint o ddefnydd o AI eisoes yn digwydd yn y sector cynhyrchu cynnwys, ond mewn modd sy'n cael ei ystyried yn foesegol briodol.

Nodwyd bod rôl bwysig i S4C i arwain ac i gyfrannu at ddatblygu defnydd cyfrifol o AI yn y Gymraeg, gan gynnwys gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar y maes hwn.

Penodiad Pennaeth Gwasanaethau Technegol

Nodwyd bod Guto Thomas wedi'i benodi'n Bennaeth Gwasanaethau Technegol ar secondiad o'r BBC, er mwyn llenwi'r bwlch wrth i Steve Cowin ymddeol fel Prif Swyddog Technegol ymhen rhai wythnosau. Cadarnhaodd GE ei fod wedi gofyn i Guto arwain ar ddatblygiadau AI yn S4C yn ystod ei gyfnod gyda'r sefydliad.

Nodwyd hefyd bod Brad Cole wedi dechrau yn ei rôl fel rheolwr prosiect BSM. Disgwylir i'r prosiect gymryd tua 18 mis i'w gyflawni. Yn ystod ei gyflwyniad i'r UDA ddechrau'r mis, cyflwynodd Brad Cole amserlen a strwythur llywodraethiant ar gyfer y prosiect, gan roi lefel dda o hyder yn y dull gweithredu.

Ystyriwyd pryd fyddai'n briodol cynnal archwiliad sgiliau o'r sefydliad, gan nodi bod cyfeiriad clir bellach yn sgil y strategaeth gorfforaethol newydd. Cytunwyd y dylai NB gyflawni gwaith cychwynnol yn fewnol, cyn dod ag unrhyw ganfyddiadau neu gynigion ffurfiol i'r Bwrdd. Awgrymwyd y gallai fabwysiadu'r dull 'RACI'.

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd bod arweinwyr eisoes wedi cael eu holi ynghylch y swyddi a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r strategaeth o fewn eu hadrannau, gyda'r bwriad o gyflwyno papur cyflawn i'r Bwrdd ynghylch y strwythur a'r galluoedd gofynnol. Cytunwyd hefyd y dylid gosod hyn yng nghyd-destun y cais ariannol i'r DCMS, er mwyn egluro'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.<br><br>**Penderfyniad: Cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf ynghylch y strwythur sydd ei angen er mwyn cyflawni'r strategaeth gorfforaethol newydd, a chanlyniad o archwiliad mewnol o'r sgiliau sydd eu hangen.**<br><br><u>Diweddariad ynghylch MOU gan y DCMS</u><br><br>Rhoddwyd diweddariad ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU) gyda'r DCMS ynghylch cymeradwyo buddsoddiadau masnachol. Daeth y ddeddfwriaeth ddiwygiedig i rym ar 01 Ionawr 2026, ond nid oedd y trafodaethau gyda'r DCMS ynghylch MOU wedi'u cwblhau erbyn hynny. Anelir at gwblhau'r trefniadau erbyn 01 Chwefror, gyda darpariaethau interim yn weithredol yn y cyfamser.<br><br>Nodwyd bod y prif egwyddorion bellach wedi'u cytuno, gan gynnwys y meini prawf ar gyfer pryd y bydd angen cydsyniad y DCMS ar fuddsoddiadau. Bydd cymeradwyaeth ffurfiol yn ofynnol ar gyfer buddsoddiadau dros £500k, oni bai eu bod yn syrthio o fewn ffiniau gweithgaredd 'busnes fel arfer.<br><br>Holwyd ynghylch disgwyliadau y dylai S4C gynyddu ei hincwm masnachol, gan i'r mater godi yn ystod y Pwyllgor Materion Cymreig ddoe. Nodwyd bod model BBC Studios yn un posibl i'w ystyried. Trafodwyd y gallai S4C ystyried sefydlu 'S4C Studios', ond pe bai hynny'n digwydd, byddai'n golygu creu elw i goffrau S4C ar draul diogelu ac atgyfnerthu buddion economaidd y sector cynhyrchu yng Nghymru.<br><br>Gofynnwyd a oes bwriad i greu 'Digital Lab' er mwyn gallu buddsoddi neu greu cynllun busnes i asesu'r potensial o ran incwm yn y maes gemau digidol. Nodwyd bod y Bwrdd Masnachol eisoes wedi ystyried rhai buddsoddiadau o'r natur hon, ond nad oes gan y sefydliad yr arbenigedd mewnol ar hyn o bryd. Cadarnhawyd fod y Bwrdd Masnachol yn parhau i edrych ar y cyfleoedd posibl i fuddsoddi yn y maes digidol. Atgoffwyd bawb hefyd ei bod wedi bod yn heriol erioed i greu elw masnachol sylweddol – ond bod hi'n bwysig bod y Llywodraeth yn ymwybodol ein bod yn archwilio pob posibilrwydd i gynyddu incwm. | |
| 3. | [ymunodd MW â'r cyfarfod]<br><br>**Ymateb S4C i'r Papur Gwyrdd ar Adolygu Siarter y BBC**<br><br>Cyflwynodd MW ei phapur trafod, ac fe nododd yr Aelodau i'r Papur Gwyrdd roi sylw teilwng a theg i S4C.<br><br>Trafodwyd pwysigrwydd annog rhanddeiliaid a'r sector i ymateb, gan nodi ei bod yn haws iddynt wneud hynny pan fyddant yn deall safbwyntiau cyfredol S4C, gan allu atgyfnerthu ein negeseuon yn allanol. Awgrymwyd y dylid datblygu dogfen un dudalen yn cynnwys y prif negeseuon i'w rhannu â phartneriaid. Un opsiwn fyddai cyfarfodydd un-i-un â rhanddeiliaid, gan gynnwys sgyrsiau briffio cyffredinol a darparu copi o ymateb corfforaethol S4C er mwyn sicrhau cydnawsedd a chysondeb yn y negeseuon. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Holwyd a fyddai'n werth cynnal digwyddiad i drafod y strategaeth gorfforaethol yn ehangach ac i rannu profiadau cyffredinol o sut mae pethau'n mynd. Cytunwyd mewn egwyddor y byddai hyn yn ddefnyddiol, gyda'r bwriad o ystyried cynnal digwyddiadau yng Nghaernarfon, Caerdydd a Chaerfyrddin, yn ogystal ag ystyried elfen rithiol er mwyn hwyluso cyfranogiad. Pwysleisiwyd bod prinder amser yn ffactor, a byddai'n rhaid dewis y dull mwyaf ymarferol o gysylltu a rhanddeiliaid cyn dyddiad cau'r ymgynghoriad.<br><br>Nodwyd bod y BBC wedi cynnal ymarfer o ofyn i'r cyhoedd am eu gweledigaeth ar gyfer y BBC yn y dyfodol, a bod modd i S4C ystyried dull tebyg. Fodd bynnag, pwysleisiwyd yr angen i fod yn ofalus gan mai'r craidd sy'n gwylio'r cynnwys fel arfer sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus o'r fath, ac felly mae'n bwysig sicrhau bod llais ehangach yn cael ei glywed.<br><br>Trafodwyd a ddylid cynnal "sgwrs gyhoeddus" ar y cyfryngau cymdeithasol, a beth yn union yw rôl ddinesig S4C. Nodwyd nad yw'r nod i gael ymateb torfol gan y cyhoedd, ond yn hytrach i ennyn mewnbwn gan y sector a rhanddeiliaid corfforaethol allweddol megis ein sefydliadau cenedlaethol.<br><br>Cytunwyd bod nifer yr ymatebion o Gymru yn allweddol, ac felly mae angen mwy o leisiau na dim ond S4C yn ymateb, gyda phwyslais ar sicrhau negeseuon cyson ynghylch S4C o fewn holiadur y DCMS. Derbyniwyd bod angen rhyw fath o ymgyrch i annog cyfranogiad, a bydd GE yn ystyried y dull mwyaf effeithiol o'i chyflwyno.<br><br>Pwysleisiwyd y dylai ymateb S4C fod yn glir ac yn ddisgybledig, gan ganolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â S4C ac unrhyw oblygiadau posibl o benderfyniadau sy'n ymwneud â'r BBC, wrth osgoi mynegi barn ar feysydd nad ydynt yn effeithio ar S4C.<br><br>**Penderfyniad: Ystyried pa fath o ymgyrch fyddai'n briodol i ymwneud â rhanddeiliaid S4C a'u hannog i gyfrannu i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd.**<br><br>Nodwyd fod DE wedi pwysleisio wrth y Pwyllgor Materion Cymreig yn Llundain ddoe bod yn hanfodol i unrhyw fframwaith ariannu newydd ddiogelu lefel cyllid S4C, hyd yn oed os bydd incwm Ffi'r Drwydded yn gostwng dros amser.<br><br>Tynnwyd sylw at bwysigrwydd parhaus Strategaeth y Diwydiannau Creadigol a Strategaeth yr Ifanc i'r DCMS, a'r angen i integreiddio'r rhain yn ein hymateb drwy amlygu sut gall S4C gyfrannu at eu cyflawni.<br><br>Cytunwyd y byddai'n fuddiol cael drafft o ymateb S4C i'r ymgynghoriad gan MW mewn da bryd, er mwyn i'r Bwrdd allu ei ystyried cyn cyflwyno'r ymateb ffurfiol. Gwahoddwyd pawb i anfon unrhyw sylwadau pellach at MW, er mwyn iddi allu blaenoriaethu'r ddogfen friffio un-dudalen, gan grynhoi'r prif negeseuon a sicrhau cytundeb arnyn nhw yn y cam cyntaf.<br><br>**Penderfyniad: Llunio dogfen friffio fer sy'n amlinellu prif negeseuon ymateb S4C i'r ymgynghoriad, i'w chymeradwyo gan aelodau'r Bwrdd dros e-bost, cyn i'r gwaith o ddrafftio'r ymateb ffurfiol i'r DCMS gychwyn.** | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 4. | **Cynllun materion cyhoeddus**<br><br>Croesawodd yr Aelodau bapur clir gan MW, a oedd yn amlinellu'r prif gerrig milltir tebygol ar gyfer gweithgareddau materion cyhoeddus yn 2026.<br><br>Awgrymwyd ychwanegu elfen o ddigwyddiadau er mwyn dod â rhanddeiliaid ynghyd, gan hwyluso ymgysylltu fel grŵp a gwneud gwaith partneriaethau S4C yn fwy amlwg. Nodwyd hefyd fod lle i ddefnyddio dylanwadwyr, nid yn unig o fewn materion cyhoeddus ond fel rhan o gyfathrebu ehangach. Trafodwyd cyfleoedd i DE a GE gyfrannu drwy'r flwyddyn ar bynciau thematig sy'n berthnasol i S4C, ac sy'n tynnu sylw at ein cynnwys a'n negeseuon corfforaethol. Pwysleisiodd Aelodau'r Bwrdd eu parodrwydd i helpu a chefnogi lle'n briodol, a'r angen i wneud defnydd effeithiol o'r cymorth hwn. Nodwyd hefyd fod cynnwys gweledol yn elfen allweddol, a bod angen meddwl yn greadigol am sut y gellir defnyddio YouTube a llwyfannau cymdeithasol eraill i gefnogi negeseuon corfforaethol.<br><br>Holwyd a ellid datblygu dadl ar y sail mai'r iaith Gymraeg ei hun sy'n golygu mai dim ond S4C all ddiwallu anghenion penodol y gynulleidfa, er enghraifft o ran sicrhau hawliau cynnwys Cymraeg. Nodwyd nad oedd y cysylltiad rhwng y ddadl hon a'r cynllun materion cyhoeddus yn gwbl eglur ar hyn o bryd, a'i bod yn faes polisi cymhleth y byddai angen ei ystyried yn ofalus. Awgrymwyd y gallai cysylltu'r drafodaeth â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ddarparu fframwaith priodol, a nodwyd y gallai DE a GE gyfeirio at hyn wrth ymddangos gerbron Pwyllgor Diwylliant Senedd Cymru, ynghyd â Thargedau Cynaladwyedd y Cenhedloedd Unedig.<br><br>Pwysleisiwyd yr angen i dargedu'r gynulleidfa graidd yn fwy effeithiol, a chyfleu'n gliriach faint o waith mae S4C yn ei wneud er eu budd. Nodwyd bod teimlad ymhlith rhai bod y sefydliad yn tueddu i ymateb i gwynion yn hytrach na chyfathrebu'n rhagweithiol. Pwysleisiwyd felly'r angen i ddangos yn glir yr hyn a wnawn, ac i gynnwys y gynulleidfa wrth i'r gwasanaeth esblygu i'r byd digidol.<br><br>Nodwyd bod S4C wedi bod yn gymharol dawel yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond bod yr amser wedi dod i fabwysiadu agwedd fwy hyderus a rhagweithiol. Er bod MW yn parhau i flaenoriaethu'r ymateb i'r Papur Gwyrdd yn y tymor byr, pwysleisiwyd bod gwaith materion cyhoeddus yn parhau'n allweddol. Cadarnhawyd bod recriwtio ar y gweill ar gyfer aelod o staff i gefnogi'r maes hwn. Nodwyd hefyd y byddai'n fuddiol, maes o law, cael gwell dealltwriaeth o sut mae strwythurau cyfathrebu marchnata, cyfathrebu corfforaethol a materion cyhoeddus yn cyd-blethu.<br><br>[gadawodd MW y cyfarfod] | |
| <br><br>5. | [ymunodd NB, DF a SM â'r cyfarfod]<br><br>**Cyfarfod blynyddol i'r Bwrdd gyda'r Fforwm Staff**<br><br>Croesawyd SM a DF i'r cyfarfod fel cynrychiolwyr o'r Fforwm Staff, a chroesawyd NB hefyd yn ei rôl fel Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant. Rhannodd SM a DF cyfres o sleidiau er mwyn cyflwyno gwaith y Fforwm Staff i'r Aelodau newydd o'r Bwrdd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nodwyd y bwriad i adolygu Cylch Gorchwyl y Fforwm Staff yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Staff ar ddiwedd Ionawr 2026 – nid i newid ei bwrpas craidd, ond i sicrhau ei fod yn gweithredu mor effeithiol â phosibl.<br><br>Nodwyd bod aelodau'r Fforwm, yn enwedig SM a DF fel y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, yn cyflawni'r rôl hon ochr yn ochr â'u gwaith dydd i ddydd yn S4C. Trafodwyd a yw hyn yn lleihau eu gallu i gyflawni dyletswyddau arferol. Cadarnhaodd DF fod ganddo'r hyblygrwydd i flaenoriaethu o fewn ei rôl, a nododd SM yr un peth, yn enwedig gan ei bod yn gweithio'n rhan amser. Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cyfrifoldebau'r Fforwm a dyletswyddau eraill.<br><br>Holwyd a oes digon o gyfathrebu rhwng yr UDA a'r staff. Nodwyd bod aelodau'r Fforwm yn teimlo'n gyfforddus i godi pryderon, yn sgil y berthynas gref sydd wedi datblygu gyda GE a NB, ac mae hyn wedi arwain at welliant mewn cyfathrebu. Cadarnhawyd mai prin iawn yw'r pryderon a ddaw gan adrannau eraill ynghylch cyfathrebu, er bod ceisiadau am eglurder neu ddiweddariadau yn codi o bryd i'w gilydd.<br><br>Trafodwyd a yw'r UDA yn gwahodd mewnbwn gan y Fforwm ar bynciau penodol, ac a yw'r Fforwm ei hun yn ystyried materion strategol yn ogystal â rhai gweithredol. Nodwyd bod y Fforwm, yn naturiol, yn fwy gweithredol gan mai dyma'r math o faterion sy'n cael eu codi gan staff. Fodd bynnag, pe bai mater strategol yn dod i'r amlwg, byddai'n cael ei godi gyda'r UDA heb gyfyngiad. Cadarnhawyd hefyd fod yr UDA o dro i dro yn gofyn i'r Fforwm roi mewnbwn ar bolisïau drafft a materion tebyg.<br><br>Holwyd a yw'r Fforwm yn dal i dderbyn cwynion gan staff, a pha mor sefydlog yw'r broses ar gyfer eu trin. Nododd DF fod gwelliant amlwg wedi bod. Yn y gorffennol, oherwydd diffyg hyder yn yr Adran Adnoddau Dynol, byddai staff yn codi pryderon drwy'r Fforwm. Mae'r sefyllfa wedi newid ers sefydlu'r Adran Pobl a Diwylliant dan arweiniad NB, ac mae aelodau'r Fforwm bellach yn annog staff i godi materion gyda'u Partner Busnes perthnasol fel cam cyntaf. Cadarnhawyd pwysigrwydd cadw at y rhaniad rhwng rôl anffurfiol a chynrychioliadol y Fforwm a'r broses ffurfiol o ymdrin â chwynion. Nodwyd bod y trefniadau presennol yn gweithio'n dda, a bod natur y Fforwm yn parhau i esblygu i ateb anghenion staff.<br><br>Diolchwyd i SM a DF am eu gwaith, gan nodi bod y Bwrdd yn ei werthfawrogi'n fawr.<br><br>[gadawodd SM a DF y cyfarfod] | |
| 6. | [ymunodd SP, NJ ac EG (yn rhithiol) â'r cyfarfod]<br><br>**Trafodaeth gyda'r Tîm Pwrpas Cymdeithasol**<br><br>Croesawyd y Tîm Pwrpas Cymdeithasol i'r cyfarfod, gan gynnwys EG, sydd ar fin ymuno â'r tîm ar secondiad blwyddyn. Croesawyd NB hefyd yn ei rôl fel yr aelod o'r Uwch Dîm Arwain sy'n gyfrifol am Bwrpas Cymdeithasol. Nodwyd bod y Tîm wedi darparu adroddiad i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr, ond na fu cyfle i'w drafod bryd hynny; felly, cynhaliwyd y drafodaeth heddiw.<br><br>Rhoddwyd diweddariad ar y datblygiadau ers cyflwyno'r papur ym mis Rhagfyr. Nodwyd bod perfformiad S4C Dysgwyr wedi parhau i wella drwy 2025, gyda chynnydd sylweddol mewn sesiynau gwylio, ymgysylltiad, a nifer y gwylwyr ar lwyfannau cymdeithasol. Nodwyd hefyd fod gwaith monitro amrywiaeth staff wedi symud yn ei | |

| | | |
|---|---|---|
| | flaen; fodd bynnag, cadarnhawyd nad yw'r system bresennol yn galluogi casglu data amrywiaeth yn y ffordd ofynnol, ac y bydd angen ystyried atebion eraill er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion adrodd Ofcom.<br><br>Trafodwyd y trefniadau ar gyfer monitro effaith, gan gadarnhau bod y Tîm Pwrpas Cymdeithasol yn casglu amrywiaeth o ddata a fydd yn hanfodol ar gyfer adrodd ar gynnydd yn erbyn trydydd amcan Strategaeth 2030. Nodwyd y bydd naratif cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mai, yn unol â'r trefniadau a gytunwyd ym mis Rhagfyr ar gyfer y mesuryddion corfforaethol. Cadarnhawyd hefyd y bydd y data hwn yn bwydo i mewn i Adroddiad Blynyddol S4C, ac yn cefnogi'r cais ariannol i'r DCMS drwy ddangos effaith ehangach y sefydliad.<br><br>Trafodwyd y trefniadau ar gyfer casglu data amrywiaeth ar draws y gweithlu a'r cynnwys. Nodwyd nad oedd y system Diamond yn darparu data digon cadarn, yn rhannol oherwydd maint bach y sefydliad a'r risg o adnabod unigolion. Cytunwyd bod angen symud tuag at gasglu data drwy'r PAC fel rhan o weithredu'r system BSM, gyda'r flaenoriaeth o sicrhau trefniadau priodol ar waith erbyn diwedd mis Mawrth er mwyn gallu adrodd ar sail blwyddyn ariannol. Mynegwyd rhwystredigaeth nad oedd data cywir yn bodoli ar hyn o bryd, a phwysleisiwyd nad yw diffyg data dibynadwy ar amrywiaeth ar y sgrin nac mewn timau cynhyrchu yn dderbyniol yn y tymor hir.<br><br>Trafodwyd y berthynas rhwng y Tîm Pwrpas Cymdeithasol a'r Tîm Comisiynu, gan holi pwy sydd â'r brif rôl o ran sicrhau amrywiaeth mewn cynnwys. Cadarnhawyd bod cyfarfodydd 'golau gwyrdd' bob pythefnos yn darparu cyfle ffurfiol i'r Tîm Pwrpas Cymdeithasol gyfrannu at drafodaethau comisiynu, a phwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau data cadarn er mwyn gallu monitro cynnydd a dylanwadu'n fwy effeithiol ar y sector. Nodwyd bod adborth yn cael ei rannu gyda chomisiynwyr yn rheolaidd, gyda'r bwriad o rannu'r wybodaeth hon yn ehangach gyda'r sector maes o law, gan gydnabod bod angen symud tuag at dystiolaeth fwy systematig.<br><br>Adroddwyd bod cwestiynau ynghylch amrywiaeth yn y gweithlu a'r cynnwys wedi codi dros nifer o flynyddoedd, a phwysleisiwyd pwysigrwydd cynnwys profiadau byw wrth lunio penderfyniadau comisiynu. Nodwyd bod gwell cydweithio rhwng timau eisoes yn amlwg, ac ymrwymwyd i gyflwyno adroddiad mwy cynhwysfawr i'r Bwrdd ym mis Mai.<br><br>**Penderfyniad: Gwahodd y Tîm Pwrpas Cymdeithasol i drafod ymhellach gyda'r Bwrdd yn hwyrach yn 2026 er mwyn cael diweddariad ar sut mae'r berthynas â'r Tîm Comisiynu wedi gwella ymhellach erbyn hynny.**<br><br>Mynegwyd pryder y gallai gosod targedau pendant annog datblygu cynnwys er mwyn cwrdd â thargedau yn hytrach na normaleiddio amrywiaeth yn naturiol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cefnogi'r sector yn gynnar yn y broses ddatblygu fel ffordd ymarferol o ysgogi newid a chreu gwerth ychwanegol.<br><br>Pwysleisiwyd yr angen i ddiffinio'n glir flaenoriaethau'r Tîm Pwrpas Cymdeithasol, gosod targedau realistig, a sicrhau bod trefniadau casglu data priodol ar waith. Nodwyd bod angen bod yn realistig ynghylch capasiti'r tîm, a chytuno ar flaenoriaethau clir ar gyfer y dyfodol.<br><br>Trafodwyd y gwaith parhaus mewn ysgolion a cholegau addysg bellach, yn ogystal â'r gwaith gyda'r sector a phartneriaid megis Cymru Greadigol a darlledwyr eraill. Nodwyd bod capasiti'n gyfyngedig, ond bod awydd i wneud mwy, yn enwedig o ran cefnogi | |

| | | |
|---|---|---|
| | llwybrau i mewn i'r sector, gan gydnabod yr heriau penodol o ran sicrhau swyddi cyntaf i brentisiaid.<br><br>[NB, SP, NJ ac EG yn gadael y cyfarfod] | |
| 7. | [ymunodd MEA ac IM â'r cyfarfod]<br><br>**Trefniadau ymateb mewn argyfwng**<br><br>Croesawyd MEA ac IM i'r cyfarfod, gyda MEA yn amlinellu'r trefniadau a ddatblygwyd ar gyfer ymateb mewn argyfwng yn sgil argymhellion adolygiad Darwin Gray o lywodraethiant S4C.<br><br>Eglurwyd mai protocol yn hytrach na chanllaw yw'r trefniadau, gyda'r bwriad o osod yr egwyddorion allweddol yn hytrach na chreu proses or-gaeth. Holwyd sut mae hyn yn cymharu â dull gweithredu darlledwyr eraill; ac fe nodwyd bod gwaith meincnodi wedi'i wneud gyda phroses y BBC, ond nad yw prosesau darlledwyr eraill wedi'u hadolygu ar hyn o bryd. Pwysleisiwyd, serch hynny, bod maint S4C yn cynnig y gallu i ymateb yn gyflym mewn sefyllfaoedd argyfwng.<br><br>O safbwynt y Bwrdd, yr egwyddor allweddol yw sicrhau nad oes 'sypreisys', a'i bod yn bwysig bod y sefydliad yn gweithredu yn unol â'r disgwyliadau hynny. Holwyd felly pryd y dylid tynnu sylw'r Cadeirydd neu'r Bwrdd at sefyllfa argyfwng. Eglurwyd bod yr egwyddorion allweddol eisoes wedi'u nodi, a bod ymarfer ymarferol yn gofyn am fonitro parhaus o sut mae risgiau'n datblygu, gan y gall fod yn fwy priodol i esgoli i lefel uwch yn ddiweddarach yn y broses. Pwysleisiwyd yr her o adnabod yr union bwynt pan fo esgoli yn angenrheidiol, a'r risg o greu prosesau biwrocrataidd diangen. Nodwyd felly mai arbenigedd a barn broffesiynol aelodau'r UDA fydd yn llywio'r penderfyniadau cychwynnol ynghylch ymateb ac esgoli.<br><br>Trafodwyd y risg y gallai materion pwysig beidio â chael eu cyfeirio i'r trefniadau ymateb mewn argyfwng. Holwyd i ba raddau y bydd comisiynwyr yn adnabod risgiau ac yn eu hesgoli at unigolion mwy profiadol, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau golygyddol priodol yn cael eu gwneud. Gofynnwyd hefyd pa hyfforddiant sydd ar gael i alluogi comisiynwyr i wahaniaethu rhwng mentro a chymryd risg, a deall pryd y gallai sefyllfa groesi'r llinell. Eglurwyd bod llawer o'r barn a'r penderfyniadau hyn yn seiliedig ar brofiad ymarferol, yn hytrach nag ar hyfforddiant ffurfiol penodol.<br><br>Nodwyd bod llawer o hyn yn ymwneud ag archwaeth risg S4C, a'r angen i sicrhau bod y trefniadau ymateb mewn argyfwng yn alinio â'r archwaeth honno. Pwysleisiwyd nad yw'r sianel yn cyhoeddi cynnwys nad yw'n cydymffurfio, a bod y Bwrdd yn gyfforddus bod y broses weithredol bresennol yn gweithio'n effeithiol.<br><br>Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol ychwanegu elfen weledol neu siart llif i ddangos dilyniant y penderfyniadau.<br><br>[gadawodd MEA ac IM y cyfarfod] | |
| 8. | **Datganiad o Bolisi Rhaglenni 2026 (ar gyfer Ofcom)** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynodd GP y Datganiad o Bolisi Rhaglenni (SOPP), gan egluro bod canllawiau Ofcom wedi newid yn sgil Deddf Cyfryngau 2024. Nodwyd bod y ffocws bellach ar sut mae S4C yn cyflawni ei remit ar draws y gwasanaeth llinol a'r gwasanaeth ar alw Clic, yn hytrach nag ar ddarpariaeth y sianel yn unig.<br><br>O ganlyniad i'r newidiadau hyn, drafftiwyd y Datganiad o'r newydd. Esboniwyd bod y pwyslais bellach ar y polisïau a'r dull gweithredu sy'n sail i'r gwasanaeth, yn hytrach na disgrifiad manwl o "lechen gynnwys". Nodwyd bod y ddogfen wedi'i strwythuro'n benodol i gydymffurfio â gofynion Ofcom, a'i bod yn debygol o aros yn gymharol gyson dros y blynyddoedd nesaf.<br><br>Nodwyd hefyd bod y flwyddyn adrodd wedi newid o flwyddyn ariannol i flwyddyn galendr. O dan y trefniadau newydd, bydd angen cytuno ar adolygiad o SOPP y flwyddyn flaenorol bob blwyddyn, a chyhoeddi'r fersiwn derfynol erbyn diwedd Mehefin.<br><br>Roedd S4C yn bwriadu cyflwyno cais i Ofcom i sicrhau statws DIPS ar gyfer Clic, a fyddai'n galluogi'r gwasanaeth i fod ar gael ar y 15 prif blatfform ac yn darparu hawliau amlygrwydd ychwanegol yn unol â'r cod amlygrwydd y mae Ofcom yn ymgynghori arno yn sgil Deddf Cyfryngau 2024. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, na ellir cyflwyno cais DIPS heb SOPP sy'n gwbl gydnaws â chanllawiau Ofcom. Disgwylir y bydd y ffenestr ar gyfer cyflwyno ceisiadau DIPS yn agor yn fuan.<br><br>Holwyd a ddylid mynegi'n gryfach bwysigrwydd S4C i'r iaith Gymraeg, gan nodi mai rhan hanfodol o'r seilwaith sy'n cynnal yr iaith yw'r sianel, a gofyn beth fyddai sefyllfa'r Gymraeg hebddi. Cytunwyd y dylid adlewyrchu'n glir yn y ddogfen fod S4C yn cyfrannu at wneud y Gymraeg yn fwy hyfyw a chynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol.<br><br>Holwyd hefyd a ddylid cynnwys cyfeiriadau pellach yn y ddogfen, gan gynnwys at bwysigrwydd chwaraeon i S4C er nad yw'n rhan ffurfiol o'r remit; nodwyd bod modd adlewyrchu hyn o fewn y polisi. Gofynnwyd hefyd a fyddai'n briodol cyfeirio at y cwricwlwm o dan adran Addysg, gan bwysleisio bod y remit yn cwmpasu addysg yn ei hystyr ehangach y tu hwnt i gyd-destun ysgolion.<br><br>Ystyriwyd a ddylid gwneud cyfeiriad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, o ran disgrifio sut mae S4C yn creu cynnwys ac yn gweithredu fel gwasanaeth cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Nodwyd y bydd angen trafodaeth bellach ar lefel y Bwrdd cyn penderfynu ar y cyfeiriadau hyn. Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd sicrhau bod y ddogfen yn adlewyrchu'r ymrwymiad i adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth.<br><br>**Penderfyniad: I ddiwygio'r Datganiad drafft yn unol â'r adborth ddarparwyd gan aelodau'r Bwrdd, a'i gyflwyno i Ofcom.** | |
| 9. | **Adroddiadau gan bwyllgorau'r Bwrdd**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol, ac fe wahoddwyd y cadeiryddion i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion perthnasol nad oeddent eisoes wedi eu crybwyll yn ystod y cyfarfod hwn:<br><br><u>Y Pwyllgor Achosion</u><br><br>Nodwyd trafodaethau'r Pwyllgor. | |

| | | |
|---|---|---|
| 10. | **Adroddiadau i'w cymeradwyo / nodi heb angen trafodaeth**<br><br>Rhannwyd yr adroddiadau canlynol gydag aelodau'r Bwrdd, gyda chais bod yr aelodau'n hysbysu'r Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd o flaen llaw os oeddent yn dymuno trafod unrhyw un ohonynt mewn manylder. Os na dderbyniwyd cais o'r fath, cymeradwywyd unrhyw weithredu arfaethedig yn unol â'r argymhelliad yn yr adroddiad ei hun.<br><br><u>Adroddiad yr Uwch Dîm Arwain</u><br><br>Nodwyd yr adroddiad.<br><br><u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol</u><br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo cofnodion cyfarfod 481, a gynhaliwyd ar 11/12/2025.**<br><br><u>Pwyntiau Gweithredu</u><br><br>Nodwyd y Pwyntiau Gweithredu.<br><br><u>Rhaglen Waith</u><br><br>Nodwyd y rhaglen waith. | |